Bute Energy Cymuned

Fersiwn wedi'i ddiweddaru

# Nodiadau Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed – 14 Mai 2025

## Presenoldeb:

- Derrick Pugh – Cyngor Cymuned Trefeglwys
- Elwyn Vaughan – Cynghorydd Sir
- Meilir Jones – Cyngor Cymuned Cadfarch
- Eluned Lewis – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- Huw Rees – Rheolwr Prosiect Parc Ynni Esgair Galed, Bute Energy
- Kadun Rees – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy

## 1. Cyflwyniadau

## 2. Trafodaeth ar ffurfio Grŵp Cyswllt Cymunedol ar gyfer Parc Ynni Esgair Galed

- Penderfynwyd mai diben y grŵp yw fel a ganlyn:
    - Darparu sianel gyfathrebu rhwng cynrychiolwyr Bute Energy a'r gymuned leol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi.
    - Darparu fforwm ar gyfer trafod a chyfnewid gwybodaeth.
    - Derbyn diweddariadau ar y broses gynllunio gan Bute Energy.
    - Derbyn gwybodaeth am y pecyn buddsoddiad cymunedol ac arwain y dull mapio cymunedol i nodi blaenoriaethau lleol.
- Penderfynwyd y cynhelir cyfarfodydd yn y dyfodol wyneb yn wyneb, ond bydd opsiwn i ymuno ar-lein i'r rheiny na allant deithio. Bydd Bute Energy yn sicrhau'r offer priodol i hwyluso cyfarfodydd hybrid.
- Cynhelir cyfarfod hybrid nesaf yn Neuadd Gymunedol Staylittle.
- Disgwyliadau ar gyfer y grŵp a chyfarfodydd i ddod:
- Bydd tîm y prosiect yn cymryd nodiadau ac yn eu dosbarthu i'r aelodau wedi'r cyfarfod.
    - Gall aelodau drosglwyddo gwybodaeth i'w hetholwyr:
        - Bute yn rhannu'r cofnodion ar wefan y prosiect
        - Cyngor Cymuned Trefeglwys yn creu tudalen ar eu gwefan
        - Cytunodd y grŵp i gyhoeddi gwybodaeth mewn papurau lleol fel Blewyn Glas
    - Rhaid cael lleiafswm o 6 aelod i gynnal cyfarfod.

- Os na fydd aelod yn mynychu 3 chyfarfod yn olynol, bydd y grŵp yn trafod hyn a gallai arwain at colli aelodaeth.
- Er y bydd gan aelodau safbwyntiau amrywiol ar y prosiect Parc Ynni Esgair Galed, disgwylir iddynt ymddwyn yn briodol a rhannu gwybodaeth yn deg â'r bobl maent yn eu cynrychioli.

- Trafodwyd sioeau a chyfarfodydd cymunedol sydd ar ddod er mwyn cydlynu dyddiadau:
  - Sioe Trefeglwys – Dydd Sadwrn 2 Awst
  - Cyfarfod Cyngor Cymuned Trefeglwys – 4ydd dydd Mawrth bob mis
  - Sioe Aberhosan – 3ydd dydd Iau o Awst
- Mae Bute Energy yn bwriadu dod â'r arweinydd mapio cymdeithasol i'r ardal i gasglu data meintiol ac ansoddol er mwyn nodi'r heriau lleol mwyaf ac arwain ar flaenoriaethau'r Gronfa Fudd Cymunedol.
- Trafodwyd ehangu'r aelodaeth a chytunwyd i wahodd y canlynol yn gychwynnol…
  - Aelodau Etholedig: Cllr Gary Mitchell, Cllr Glyn Preston, Cllr Elwyn Vaughan, Cllr Gareth Morgan
  - Gydag uchafswm o 2 aelod o bob cyngor cymuned:
    - Cyngor Cymuned Trefeglwys
    - Cyngor Cymuned Cadfarch
    - Cyngor Cymuned Llanbrynmair
  - Cynrychiolydd o grŵp perchnogaeth tir y safle
    - Diben y swydd hon yw cynrychioli'r grŵp perchnogaeth tir yn unig
  - Protect Glaslyn a Hafren – 1 cynrychiolydd
  - YFC Maldwyn
    - 3 grŵp lleol: Brodyfi, Trefeglwys, Llydiartywaen
    - Elen Williams wedi'i henwebu fel cynrychiolydd posib (Clerc Cadfarch a chysylltiad YFC)
  - Montgomeryshire Wildlife Trust – 1 cynrychiolydd
  - Julia Lewis, Swyddog Twristiaeth Cyngor Sir Powys – cynrychiolydd busnesau a thwristiaeth
  - Gwahodd Green Gen Cymru unwaith y bydd ganddynt gynlluniau cyhoeddus ar gyfer cysylltiad grid
  - Gellir gwahodd grwpiau neu sefydliadau eraill i gyfarfodydd penodol
  - Caniateir i'r grŵp adolygu aelodaeth yn ôl yr angen
- Etholiad cadeirydd y grŵp:
  - Cytunwyd mai rôl y cadeirydd yw cadeirio'r cyfarfodydd, aros yn ddiduedd, sicrhau trefn a chaniatáu cyfraniad cyfartal

- Etholir y cadeirydd gan aelodau eraill y CLG
- Penderfynwyd gohirio'r etholiad tan y cyfarfod nesaf

## 3. Diweddariad Prosiect gan Huw Rees ar Barc Ynni Esgair Galed

- Cafwyd oediad ers Mawrth 2024 oherwydd cytundebau tir, yn cynnwys rhai gyda NRW
- Prin fu'r gwaith technegol yn y cyfnod yma oherwydd yr oedi yn y cytundebau tir
- Ers Mawrth 2025, mae'r cytundebau wedi symud yn eu blaen, digon i ganiatáu i'r gwaith ailddechrau'n llawn
- Mae'r tîm prosiect yn datblygu'r dyluniad drwy broses ailadroddol gan ystyried
    - Asesiad Gweledol Preswyl
    - Canlyniadau arolygon ecolegol
    - Canlyniadau arolygon mawn
    - Adborth ymgynghori
- Mae'r llwybr cludo yn cynnwys rhan o Goedwig Hafren ond cafwyd mynediad arolygu cyfyngedig hyd yn hyn
- Ceir dyddiadau allweddol:
- Dylai'r dyluniad terfynol y parc ynni gael ei rewi erbyn diwedd 2025
- Cynhelir Ymgynghoriad Statudol ddechrau 2026
- Cynigir cyflwyno'r cais cynllunio i PEDW erbyn diwedd Awst 2026
- Disgwyl penderfyniad 10 mis wedyn
- Os rhoddir caniatâd, bydd y parc yn weithredol erbyn canol 2030
- Arolygon Safle:
    - Tîm arolwg mawn ar y safle ar hyn o bryd
    - Arolwg topograffig ar ran ogleddol y safle i ddechrau 26 Mai, gan ddefnyddio drôn a fyddd yn hedfan tua 100m uwchben y tir. Ni fydd y drôn yn hedfan dros dir preifat
    - Bydd trigolion agosaf yn cael gwybod ymlaen llaw – gofynnwyd i'r grŵp rannu'r wybodaeth gyda thrigolion stad Llwynygog (Ffordd-y-Coedwyr, Ystrad Hir a Bryn Llwyd)

## 4. Cyflwyniad byr gan Eluned Lewis ar ddull Buddsoddi Cymunedol Bute Energy

- Ceir mwy o fanylion yn y sleidiau a gaiff eu rhannu'n ddiweddarach
- Cynhelir trafodaeth fanylach ar fuddion cymunedol mewn cyfarfod yn y dyfodol


## 5. Manylion y Cyfarfod Nesaf

- Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf am 6.30pm
- Terfyn amser i gadarnhau cynigion o aelodau newydd: Dydd Gwener, 20 Mehefin

## Camau i'w cymryd

- KADUN: cylchredeg nodiadau a chreu fersiwn lân ar gyfer gwefan y cyngor cymuned
- GARY: cysylltu â chynrychiolwyr Protect Glaslyn a Hafren
- HUW: cysylltu â Montgomeryshire Wildlife Trust a grŵp perchnogaeth tir
- MEILIR: cysylltu ag Elen Williams yng Nghadfarch / YFC Maldwyn
- ELWYN: cysylltu â Julia Lewis a Glyn Preston
- BUTE: Llogi Neuadd Staylittle ar gyfer 15 Gorffennaf 6.30pm–8.30pm
- BUTE: rhannu map ardaloedd Cynghorau Cymuned cyfagos

Map o’r Ardaloedd Cynghorau Cymuned Cyfagos




1. Cyngor Cymuned Trefeglwys
2. Cyngor Cymuned Llanbrynmair
3. Cyngor Cymuned Glantwymyn
4. Cyngor Cymuned Cadfarch
5. Cyngor Cymuned Blaenrheidol
6. Cyngor Cymuned Llanidloes – Heblaw
7. Cyngor Cymuned Llangurig
8. Cyngor Cymuned Carno